EB 22

Credwch mewn plant
Believe in children
Barnardo's Cymru

**Ymateb i ymgynghoriad cam cyntaf Bil Addysg (Cymru).**

Annwyl Gadeirydd

Wrth gynnig sylwadau ynglŷn â Bil Addysg (Cymru), gwnawn hynny o'n safbwynt fel sefydliad sy'n darparu cefnogaeth ar gyfer plant agored i niwed, eu teuluoedd a'u gofalwyr, yn hytrach na fel darparwr cyfleoedd addysgiadol ffurfiol. O'r herwydd, bydd ein hymateb yn tynnu sylw at ein pryderon yn hytrach nag yn cynnig dadleuon o sylwedd.

**A Materion Cyffredinol**

- O ddarllen y Bil fel y'i cyflwynwyd, roeddem yn teimlo, yn gyntaf, nad oeddem yn gallu gweld sut bydd y Bil yn cyflawni ei nod o wella safonau. Nid ydym yn poeni am ehangu'r meini prawf ar gyfer cofrestru, ond byddem yn croesawu cydnabyddiaeth amlwg yn y Bil i rôl a budd mewnbwn cymunedol sydd ddim angen ei gofrestru, megis cymunedau ffydd neu ethnig, rhieni a'r heddlu a gwasanaethau achub. Nid yw hi ychwaith yn glir sut mae "addysgu" yn cael ei ddiffinio, ac a oes hyblygrwydd yn y diffiniad ar gyfer y rhai nad ydynt wedi'u cofrestru y cyfeiriwyd atynt yn flaenorol.

- Nid ydym yn glir sut bydd cofrestru ysgolion annibynnol i ddarparu addysg Anghenion Addysgol Arbennig (AAA) yn cydweddu â datblygu deddfwriaeth Anghenion Dysgu Ychwanegol (ADY), gan awgrymu y gallai hyn esgor ar amryfusedd yn hytrach na chydlyniad wrth ddatblygu AAA mewn deddfwriaeth i'r dyfodol.

- Nid ydym yn sicr ynglŷn â chydlyniad cyllid ar gyfer darpariaeth AAA ôl-16. Yn hyn o beth, ni cheir unrhyw gyfeiriad at eiriolaeth, gweithwyr trosglwyddo, yn enwedig yng nghyswllt y prosiectau peilot ADY a'r prosiect Cyfleoedd Gwirioneddol a noddwyd drwy Ewrop.

- Ein pryder cyffredinol olaf yw sut bydd cofrestru "pobl sy'n addysgu plant a phobl ifanc" yn gwella cyflawniadau, yn enwedig gyda disgyblion AAA. Ceir tystiolaeth bod disgyblon AAA yn cyfrif am ragor na 50% o'r disgyblion a waherddir o ysgolion, a'u bod dair gwaith yn fwy tebygol na'u cyfoedion nad ydynt yn AAA o fod heb unrhyw gymwysterau ffurfiol. Gan mai pobl ifanc anabl, gan gynnwys AAA, yw'r rhai mwyaf tebygol o fod yn rhai nad ydynt mewn addysg, hyfforddiant na chyflogaeth (NEET), nid yw pwysigrwydd addysg bellach wedi'i adlewyrchu'n ddigonol yn y Bil fel y'i cyflwynwyd.

**B Materion Penodol**
**Rhan 2: Y Gweithlu Addysg**

Adran 3: byddem yn croesawu ystyried ychwanegu isadran c) - Gwaith gyda chyrff proffesiynol mewn sectorau eraill (e.e. Gwasanaethau Cymdeithasol ac Iechyd ond nid rhestr hollgynhwysol) i gynnal a gwella safonau traws-sector ym maes addysgu plant a phobl ifanc.
Adran 8, (2): ystyried ychwanegu d) – rhannu arbenigedd ar draws sectorau a gyda gweithwyr proffesiynol sy'n gweithio ar y cyd gydag athrawon a staff cefnogi.

Adran 14, (4): ystyried ychwanegu e) – gweithwyr proffesiynol o sectorau eraill yn gweithio mewn partneriaeth gyda'r ysgol i gefnogi'r cwricwlwm; ac f) – cydnabod rôl rhieni a chymunedau.

Adran 15 (1) (a): ystyried ychwanegu (iii) – gweithwyr proffesiynol o sectorau eraill yn gweithio mewn partneriaeth â sefydliad Addysg Bellach i gefnogi'r cwricwlwm.

Adran 16: Yma, hoffem weld rhywfaint o eglurhad ynglŷn â defnyddio Taliadau Uniongyrchol i sicrhau cefnogaeth ar gyfer unigolyn ifanc mewn Addysg Bellach. Os felly, mae'n bosib y byddai angen i gategorïau cofrestru Addysg Bellach adlewyrchu cymorth personol yn hytrach na chyfyngu cofrestru i gymwysterau addysgu a phrofiad astudio.

**Rhan 3: Unigolion ag Anawsterau Dysgu**

Adran 44 (40a) a (40B). Nid ydym yn teimlo ein bod yn llawn ddeall yr adran hon, a hoffem gael eglurhad. Ymddengys bod rhai tybiaethau'n cael eu gwneud ynglŷn â gwahanu darpariaethau ôl-16 a, thrwy hynny, eu darparu drwy ddarpariaeth neu leoliad arbenigol. Os felly, nid ydym yn sicr sut bydd yr ysgogiad i godi safonau yn cael ei gyflawni.

Ymddengys hefyd ei bod hi'n bosib bod tybiaeth y bydd y ddarpariaeth hon mewn coleg yn hytrach nag yn gynllun dysgu seiliedig ar waith neu brentisiaeth – y naill a'r llall ohonynt wedi esgor ar ganlyniadau gwerthfawr.

Credwn y dylai'r adran hon allu adlewyrchu'r datblygiadau ym maes ADY, cynlluniau trosglwyddo a Chynlluniau Datblygu Unigol yng nghyswllt asesu a pharhad darpariaethau addysg a hyfforddiant ar gyfer myfyrwyr sydd ag anawsterau dysgu.

Byddem hefyd yn galw am fwy o ffocws ar ddulliau sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn yng nghyswllt asesu a darparu, y naill a'r llall.

Adran 46, (40n), (1); dileu 'may' a rhoi 'should' yn ei le.

Adran 46, (40o), (1), (b): Byddai'n fuddiol pe bai'r defnydd o iaith yn gyson ar draws pob maes polisi gan fod Llywodraeth Cymru ar hyn o bryd yn cyfeirio at Eiriolaeth Broffesiynol Annibynnol yn hytrach nag annibynnol yn unig. Byddem yn awgrymu y gellid golygu (40o), (1), (b) i osod dyletswydd neu ofyniad ar ddarparwyr i gyfeirio at Eiriolaeth Broffesiynol Annibynnol yn hytrach na disgwyl am gais.

Mae hi hefyd yn ofid i ni fod eiriolaeth ond yn cael ei drafod yng nghyswllt apêl asesiad. Byddem yn disgwyl gweld cydnabyddiaeth o rôl a budd eiriolaeth o fewn prosesau eraill megis trosglwyddo neu gynllunio datblygiad.

**Atodlen 1**

Dan adran 3, byddem yn awgrymu ychwanegu c) - sicrhau bod o leiaf un aelod o'r cyngor o broffesiwn gwahanol, ond gyda phrofiad o fyd addysg. Rydym yn awgrymu hyn er mwyn sicrhau gweithio mewn partneriaeth.

Yn ychwanegol - d) gofyn bod gan un aelod o'r cyngor brofiad o weithio gyda phlant a phobl ifanc yn ogystal ag arbenigedd penodol ym maes Hawliau Dynol Plant.

**Atodlen 2**

Byddem yn awgrymu ystyried golygu tabl 1 adran 1 i adlewyrchu ein sylwadau cynharach ynglŷn â chynnwys y gymuned.

**Materion terfynol**

Byddem yn disgwyl gweld Asesiad trylwyr a chynhwysfawr o'r Effaith ar Hawliau Plant yn y cyfnod hwn.

Byddem yn awgrymu y dylai cydbwyso prosesau negyddol a chadarnhaol yng nghyswllt is-ddeddfwriaeth wyro mwy tuag at weithdrefnau cadarnhaol, yn enwedig gyda materion yn ymwneud ag asesu, apêl a thribiwnlys.

Yn olaf, byddai'n fuddiol yn y cyfnod hwn gweld tablau tarddiadau a diddymiadau.

Yn gywir

Vikki Butler
Uwch Swyddog Polisi ac Ymchwil

Barnardo's Cymru
Uned Polisi ac Ymchwil
vikki.butler@barnardos.org.uk
01639 620771

13eg Medi 2013